PET(4) WPI 11
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Edwin C.Lewis

[redacted]

Ms Abigail Phillips,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Ms Phillips,

Yn y rhifyn cyfredol o'r _Tyst_ mae Robin Gwyndaf yn tynnu'n sylw at yr angen i sefydlu Academi Heddwch i Gymru.

Mae e'n rhestru rhai o'r mannau dieflig sy yng Nghymru'n bod, fel Aberporth, Epynt ... heb sôn am Gastell Martin a llawer man arall. Beth sy'n bod ar ein llywodraethwyr? A ydynt wedi cefnu'n hollol ar ein hetifeddiaeth, ac ar ein crefydd Gristnogol? Heb 'Heddwch', bach o werth sy'n bosibl.

Rwyf am fynegi fy safbwynt, taw dyma'r flaenoriaeth a ddylai fod gyda'r Cynulliad ar gyfer y Flwyddyn Newydd sydd o'n blaen ymhen llai na deufis.

Wrth gwrs fe ddylai fod yn rhan o raglen waith ymhob ysgol yn y wlad ac yn destun cyson ymhob dosbarth. Ymhellach, o dan cytundeb cyflogi athrawon dylid gofyn i bob un am ei farn: _A ydych yn cyd-weld a chytuno i hybu 'Heddwch' yn eich gwersi o ddydd i ddydd?_ Ateb yr athro/athrawes sy'n bwysig, nid dim ond ei gymwysterau/chymwysterau.

Heddwch yw'r unig ffordd ymlaen i ni fel cenedl. Felly, sefydler Academi Heddwch ar frys!

Yn gywir iawn,

Edwin C. Lewis, M.Ed., Ph.D.